Infoengine links with Dewis to provide collaborative directory of services for Wales.

Agreement has been reached for infoengine [http://en.infoengine.cymru], Wales' database of third sector services, provided by a partnership of Third Sector Support Wales members (CVCs working at local level and WCVA at national level), to connect with Dewis (https://www.dewis.wales), a database of well being services, to provide a combined repository of information for citizens about services available to them. The integrated system will also be used by NHS Direct and NHS 111 to facilitate access and referrals to third sector services. It is intended that the link between the systems will be fully operational by the end of February 2018.

Carl Cooper, Chief Executive of the Powys Association of Voluntary Organisations and lead for infoengine said:

"So often we hear the cry go up from people, communities and front-line professionals: 'If only we knew what was out there!'. infoengine provides important information about voluntary sector services and the providers of these services. Over 3500 such organisations and services are currently registered within its directory. This information will now be made available via Dewis (and vice versa) in order that people do not need to look for information in more than one place, be that infoengine or Dewis. This is a major development in the cooperation and partnership between the third sector and statutory sector in Wales."

Infoengine yn cysylltu â Dewis i ddarparu cyd-gyfeirlyfr ar gyfer gwasanaethau yng Nghymru

Cyrhaeddwyd cytundeb i infoengine [http://infoengine.cymru], cronfa ddata Cymru ar gyfer gwasanaethau trydydd sector, a ddarperir gan bartneriaeth o aelodau Cefnogi Trydydd Sector Cymru (Cynghorau Gwirfoddol Sirol ar lefel leol a WCVA ar lefel genedlaethol), gysylltu â Dewis [https://www.dewis.cymru], cronfa ddata o wasanaethau llesiant, er mwyn darparu cronfa gyfunol o wybodaeth i ddinasyddion ynglŷn â gwasanaethau sydd ar gael iddynt. Bydd y system integredig yn cael ei defnyddio hefyd gan Galw Iechyd Cymru a GIG 111 i hwyluso mynediad ac atgyfeiriadau at wasanaethau'r trydydd sector. Bwriedir i'r cyswllt rhwng y systemau fod ar waith yn llwyr erbyn diwedd mis Chwefror 2018.

Dywedodd Carl Cooper, Prif Weithredwr Cymdeithas Mudiadau Gwirfoddol Powys a'r swyddog arweiniol ar gyfer infoengine:

"Mor aml rydym yn clywed y gri yn dod o enau pobl, cymunedau a gweithwyr proffesiynol ar y rheng flaen: 'Pe baem ond yn gwybod beth oedd ar gael!'. Mae infoengine yn darparu gwybodaeth bwysig ynglŷn â gwasanaethau'r sector gwirfoddol a darparwyr y gwasanaethau hyn. Mae dros 3500 o fudiadau a gwasanaethau o'r fath wedi'u cofrestru ar hyn o bryd yn y cyfeirlyfr. Fe fydd y wybodaeth yma nawr ar gael drwy Dewis (a'r ffordd arall) fel nad oes angen i bobl chwilio am wybodaeth mewn mwy nag un lle, boed hynny ar infoengine neu Dewis. Mae hwn yn ddatblygiad o bwys yn y cydweithredu a'r bartneriaeth rhwng y trydydd sector a'r sector statudol yng Nghymru."

Judith Stone
Cyfarwyddwr Cynorthwyol Polisi, Partneriaethau ac Ymgysylltu / Assistant Director of Policy, Partnerships & Engagement
Cyngor Gweithredu Gwirfoddol Cymru / Wales Council for Voluntary Action